
# Gwreiddiau Adferiad Gwyrdd yng Nghymru

## Maniffesto ar gyfer Etholiadau Senedd Cymru 2021



COED CADW
WOODLAND
TRUST


# Gwreiddiau Adferiad Gwyrdd yng Nghymru

## Sut mae coed yn gweithio i natur, pobl a'n heconomi

Ers canrifoedd mae ein llesiant yn dibynnu ar goed a choedydd i ddarparu gwreiddiau a changhennau bywyd. Mae coed bob amser wedi cynnig atebion syml a chosteffeithiol i'r heriau rydyn ni i gyd yn eu hwynebu.

Yn ein Maniffesto rydyn ni'n dangos sut gall coed ein helpu yr adeg yma i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd ac adeiladu economi sy'n gydnerth o ran yr hinsawdd a chymdeithas lle mae natur yn gyforiog, un sy'n addas i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

O goedwigoedd cenedlaethol i strydoedd lleol, mae coed yn adlewyrchu ein balchder yn y byd o'n hamgylch. Maent yn darparu lloches, cysgod a'r ocsigen rydyn ni'n ei anadlu; maent yn amsugno carbon ac yn hidlo llygredd, yn cyfoethogi priddoedd ac yn dal dŵr yn ôl. Maent yn darparu pren fel deunydd crai ar gyfer adeiladau, gwaith saer a chrefftwaith. Rhyfeddodau i'w hedmygu ydynt; ar draws y cenedlaethau safant yn dystion i ddigwyddiadau a chyfrinachau hanesyddol ac maent yn ganolog i adrodd straeon a chwarae. Ased hanfodol yw coed i'n hiechyd, ein llesiant a'n dyfodol.




*Ffig. 1 Tyfu economi werdd*





Mae coetir hynafol[1] yn brin. Yng Nghymru, dim ond 4.5% o'r arwynebedd tir y mae'n ei orchuddio. Yn ganrifoedd oed, mae wedi datblygu cymunedau arbennig o blanhigion, pryfed ac anifeiliaid nad ydynt i'w cael yn unman arall.

Mae'r coedydd hyn wedi gweld hanes dynol ar ei hyd ac fe'u gwelir yn aml ym mytholeg a diwylliant Cymru. Does dim syndod bod eu colli o hyd er mwyn datblygu dynol yn rhedeg ochr yn ochr â'r argyfwng natur.[2] Mae coedydd hynafol Cymru'n cynnwys ein coedwig law Geltaidd[19] sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel cartref prin a chyfoethog i fywyd gwyllt.

Ein cenhadaeth, gyda'ch cefnogaeth chi, yw gwarchod ac adfer coetiroedd hynafol a darparu mwy o goed, heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol... i wireddu ein gweledigaeth o DU sy'n gyforiog o goedydd a choed brodorol i bobl a bywyd gwyllt.

Mae Cymru wedi cael dechrau da arni. Mae'r Cynllun Plant! yn plannu coeden i bob baban newydd sy'n cael ei eni neu'i fabwysiadu yng Nghymru. Lansiwyd Coedwig Genedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2020 yng nghoetir newydd diweddaraf Coed Cadw ym Mrynau, ger Castell-nedd. Dyma un o'r coetiroedd mwyaf rydyn ni erioed wedi'i greu mewn partneriaeth. Ei fwriad yw annog bywyd gwyllt, lleihau llifogydd, creu ardaloedd newydd ar gyfer chwarae a hamdden, a chynyddu llesiant y 530,000 o bobl sy'n byw o fewn taith awr i'r safle.

Gwreiddiau cadarn i adeiladu ohonynt yw'r rhain, ond RHAID i ni wneud cymaint yn fwy i wireddu holl werth coed er lles cymunedau a busnesau ledled Cymru. Mae ein maniffesto'n amlinellu'r newidiadau y mae'n RHAID i ni eu gwneud o ran sut mae coed a choedydd yn cyfrannu i Gymru ffyniannus a llewyrchus yn y dyfodol.

## Beth mae ein maniffesto'n ei gynnig?

**Mae'r pandemig Covid-19 wedi ein llorio i gyd. Ar yr un pryd, rydyn ni yng nghanol argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth ar y cyd. Rhaid i'n hadferiad fynd i'r afael â hyn yn syth, ar frys a chyda ffocws, i leihau'r effeithiau heddiw ac ar genedlaethau yn y dyfodol.[21] Dychwelyd i'r normal fydd ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol.**

### Y tri phrif 'wreiddyn' hyn yw ein sylfeini ar gyfer Cymru gref a chydnerth:

1. Gwyrddio ein Trefi a'n Dinasoedd
2. Cefnogi Cymunedau Amaethyddol gyda Choed
3. Cysylltu Cymru ag Economi Goetiroedd

Gwreiddyn 1

# Gwyrddio ein Trefi a'n Dinasoedd







## Pam?

**I ddod â choed a mannau gwyrdd yn agosach i ni oll; maent yn naturiol hanfodol i'n hiechyd a'n hapusrwydd ym mhob ffordd. Mae angen coed arnom i anadlu, ein hamddiffyn rhag llygredd a lleihau llifogydd. Maent yn ein cysgodi rhag gwres eithafol a byddant yn dod â'r natur sydd mor hoff gynnon ni'n agosach i'n cartrefi. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan goed yn arbed arian i ni ac yn achub bywydau.**

## Sut?


### Cangen 1.1 – Cynllun Coed a Choetiroedd i bob Cyngor yng Nghymru

- Gwneud pob tref yng Nghymru'n Dre Goed,[3] gyda phob Cyngor yn paratoi Strategaeth Coed a Choetiroedd hirdymor.[4] Rhaid iddyn nhw sicrhau a chynnal 20% o orchudd coed fan leiaf mewn ardaloedd trefol[5] a 30% o orchudd coed ar gyfer pob datblygiad newydd.
- Datblygu timau coed a choetiroedd ar lefel gymunedol, ranbarthol a chenedlaethol.[6]
- Cefnogi cynghorau i weithio gyda chymunedau a helpu pobl i gael dweud eu dweud wrth gynllunio ar gyfer coed.
- Lleoli coedydd newydd i helpu i leihau llifogydd ac i ddarparu ar gyfer cymunedau nad oes mannau gwyrdd hygyrch ar gael iddynt.

### Cangen 1.2 – Rhoi diwedd ar y difrod i'r coed aeddfed sydd eisoes gynnon ni

- Comisiynu adroddiadau coed ar gyfer pob ardal drefol sy'n dangos holl werth a buddion y coed sydd eisoes yn bodoli ar hyd eu hoes, yn enwedig coed aeddfed mawr.[7] *Ffig. 2*
- Rhoi ar waith argymhellion Comisiwn y Gyfraith i ddiweddaru a gwella deddfwriaeth gwarchod coed yn rhan o Ddeddf Gynllunio newydd i Gymru.[8]
- Atal pwyllgorau cynllunio cynghorau rhag gadael i ddatblygwyr dorri coed aeddfed iach.
- Grymuso cymunedau drwy gryfhau rheoliadau cynllunio sy'n amddiffyn mannau gwyrdd a choetiroedd a choedd hynafol nad oes modd eu hadfer. *Ffig. 3*

### Gwerth ariannol y gwasanaethau a ddarperir gan goed trefol




*Ffig. 2 Mae Adroddiadau Coed yn mesur 3 budd allweddol coed trefol bob blwyddyn[7]*



### Cangen 1.3 – Sefydlu Timau Coed fel rhan o Raglen Adferiad Gwyrdd genedlaethol

- Cynyddu'r gorchudd coed ar hyd ffyrdd a llwybrau cerdded a beicio i'w gwneud yn fwy deniadol, diogel ac iach ac yn well i fywyd gwyllt.
- Cefnogi rhagnodi gwyrdd gan y GIG i gynyddu gweithgareddau awyr agored i wella iechyd corfforol a llesiant meddwl.[10]
- Ennyn diddordeb y genhedlaeth nesaf mewn swyddi gwyrdd drwy gefnogi planhigfeydd coed cymunedol ac 'ysgolion y goedwig' ar draws Cymru fel ystafelloedd dosbarth awyr agored.




**Er 1999 rydyn ni wedi cofnodi cyfanswm o 584 o goetiroedd hynafol a allai fod o dan fygythiad datblygu yng Nghymru.**
**O blith y 584 o achosion hynny, mae 337 wedi'u 'hachub', 98 wedi'u colli neu'u difrodi ac mae 149 o dan fygythiad ar hyn o bryd.**

*Ffig. 3 Nifer y Coedydd Hynafol yng Nghymru o dan fygythiad yn 2009 – yn ôl y math o fygythiad[9]*





## Mae coed yn asedau naturiol grymus ac amlbwrpas[30]




Rhwng 2006 a 2013 **collwyd rhyw 7,000 o goed mawr** a rhwng 2009 a 2013, dangosodd **159** o'r **220** o drefi sydd gynnon ni **ddirywiad cyffredinol yn y gorchudd coed**

Gwreiddyn 2

# Cefnogi Cymunedau Ffermio â Choed







## Pam?

**Yn draddodiadol, mae coed a gwrychoedd wedi diogelu a darparu er lles anifeiliaid fferm. Yn naturiol maent yn maethu, cynyddu ac yn diogelu priddoedd ffermydd, o ran eu ffrwythlondeb â'u storfa garbon hanfodol, gan helaethu eu gallu i dyfu cnydau. Mae coed yn cynnig cartref unigryw amrywiol a chymhleth ar gyfer toreth o fywyd gwyllt. Bydd eu hailsefydlu'n briodol yn diogelu ein cymunedau rhag amodau tywydd cynyddol andwyol a achosir gan newid yn yr hinsawdd.**

## Sut?

### Cangen 2.1 - Cynyddu'r gorchudd coed ar ffermydd gyda thaliadau o dan Gynllun Gwrychoedd a Lleiniau gan gefnogi ffermio sy'n glyfar o ran yr hinsawdd ac yn natur-gyfeillgar

- Rhoi arian i dirfeddianwyr am atebion naturiol sy'n ystyriol o natur i reoli llifogydd[11] ac adfywio gwrychoedd coed ar gyfer bywyd gwyllt a storio carbon.
- Sefydlu cynllun "Gwrychoedd a Lleiniau"[12] sy'n gwobrwyo ffermwyr am ehangu ac ymestyn gwrychoedd, lleiniau llochesu a chynefinoedd ar lannau nentydd ac ymylon caeau. *Ffig. 4*
- Sicrhau bod ffermwyr yn derbyn incwm sylfaenol dibynadwy am greu a chynnal a chadw ardaloedd lle ceir cynefinoedd bywyd gwyllt a gorchudd coed o safon uchel.




*Ffig. 4 Buddion amaeth-goedwigaeth i fywyd gwyllt a ffermio[12]*



**Yng Nghymru, tynnwyd chwarter o'r holl wrychoedd rhwng 1984 a 1990,[13] ac mae 78% o'r gwrychoedd sydd ar ôl yng Nghymru mewn 'cyflwr gwael'.[14]**



## Cangen 2.2 – Cryfhau gwaith cynghori a phartneriaeth â ffermwyr fel rhan o Raglen Adferiad Gwyrdd genedlaethol

- Buddsoddi mewn sgiliau a rhwydweithiau cynghori i ddiwallu'r holl wahanol anghenion a chyfleoedd y gall coed eu cynnig i gymunedau ffermio. Mae hyn yn creu systemau bwyd cydnerth o ran yr hinsawdd wrth gyfoethogi eu tirweddau rhanbarthol a diwylliannol arbennig a'u cynefinoedd bywyd gwyllt.[15]
- Galluogi partneriaethau dalgylchoedd afonydd cymunedol sy'n cynorthwyo tirfeddianwyr i ehangu coetiroedd ac adfer cynefinoedd i gynnig atebion sy'n seiliedig ar natur i leihau llifogydd a storio carbon.[13]
- Lleihau llygredd yn sgil ffermio dwys drwy gryfhau rheoleiddio a gorfodi amodau cynllunio. Cefnogi ymyriadau natur-gyfeillgar megis plannu coed sy'n atal llygredd.[16]







**Mae ychydig dros 99% o holl goedydd Cymru uwchlaw'r lefelau derbyniol o lygredd nitrogen. Mae hyn yn cael effeithiau niweidiol ar eu planhigion a bywyd gwyllt.**



Gwreiddyn 3

# Cysylltu Cymru ag Economi Goetiroedd







## Pam?

**Gall meithrin cysylltiadau pob dydd â choed ein helpu i ofalu am ein hamgylchedd naturiol a'i ddeall yn well. Bydd cynyddu nifer y coed yn gwella iechyd a llesiant ein cymunedau drwy sicrhau gwell ansawdd bywyd a dyfodol sicrach i'n plant, yn ogystal â mynd i'r afael ar frys â'r argyfwng hinsawdd a natur. Bydd economi goetiroedd sy'n gofalu am ein gorchudd coed ac yn ei ehangu yn darparu swyddi ac yn cyfrannu'n sylweddol i adferiad gwyrdd Cymru.**


## Sut?

### Cangen 3.1 – Datblygu Coedwig Genedlaethol Cymru i wneud Cymru'n Genedl o Goetiroedd gysylltiedig

- Cefnogi rhaglen Coedwig Genedlaethol amlbwrpas i Gymru gyfan sy'n galluogi cymunedau i ryngweithio â choetiroedd er mwyn llesiant, cydnerthedd o ran yr hinsawdd a buddion economaidd.
- Galluogi ymgysylltu cymunedol o safon uchel mewn penderfyniadau ar leoli, cynllunio a chyflwyno holl brosiectau'r Goedwig Genedlaethol.
- Ymateb i'r dirywiad trychinebus ym mywyd gwyllt y coetiroedd drwy flaenoriaethu adfer coedydd hynafol,[18] gan gynnwys Coedwig Law Geltaidd Cymru sydd o bwysigrwydd rhyngwladol.[19]
- Defnyddio cyllid cyhoeddus i wneud coed-wigoedd yn fwy amrywiol a chydnerth o ran yr hinsawdd ac yn well i fywyd gwyllt a phobl.

### Cangen 3.2 – Sefydlogi a storio carbon mewn coed, coetiroedd a choedwigoedd "carbon-glyfar"

- Cyflymu'r broses o greu coetiroedd newydd bob blwyddyn, gan ddefnyddio mwy o gytrefu naturiol, gyda thros 5,000 hectar y flwyddyn erbyn 2035[20] a chan weithio bob amser i'r 10 Rheol Aur ar gyfer Plannu Coed er mwyn sicrhau bod y 'goeden gywir yn y lle cywir'.
- Cyflawni argymhellion diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd[21] a chyrraedd gorchudd coed o 24% erbyn 2050, gyda chodiadau pellach yn y gorchudd coed ar ffermydd ac mewn ardaloedd trefol.[22]
- Gwneud yn siŵr fod holl gamau rheoli coed-wigoedd yn gadarnhaol o ran carbon drwy ofalu bod y carbon yn cael ei ddiogelu mewn priddoedd a hen goed. Lle bynnag bo'n bosibl defnyddio pren mewn cynhyrchion oes hir.[23]



**Dim ond 2% o goetiroedd anfrodorol yng Nghymru sydd mewn cyflwr ecolegol da a dim ond 9% o goetiroedd brodorol.[19]**
**Nodweddir y rheini sydd mewn cyflwr ecolegol gwael gan lefelau isel o goed marw, lefelau isel o amrywiaeth o ran oedran y coed a rhywogaethau, a diffyg coetir agored.**



**Rhwng 1990 a 2019 mae'r DU wedi gweld dirywiad o 41% yn nifer ei gloÿnnod coetir. Dirywiodd nifer y rhywogaethau adar sy'n dibynnu'n drwm ar gynefinoedd coetir 47% rhwng 2011 a 2017. Mae dwy ran o dair o'r coedydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yng Nghymru mewn cyflwr gwael.[2]**



## Cangen 3.3 – Cysylltu cymunedau â'r economi goetiroedd yn rhan o Raglen Adferiad Gwyrdd genedlaethol

- Datblygu amrywiaeth o ddewisiadau ariannu preifat a chyhoeddus ar gyfer gwahanol fathau o goedwigaeth a phlannu coed.
- Buddsoddi mewn partneriaethau lleol sy'n datblygu'r sgiliau a'r capasiti i greu a defnyddio coetiroedd ar gyfer crefftau a masnach arloesol, adeiladu tai, hamdden a thwristiaeth.[25]
- Diwallu anghenion y cyhoedd drwy brynu cynhyrchion o economi goetiroedd Cymru.
- Cefnogi planhigfeydd coed Cymru gydag archebion am goed at blannu sy'n tarddu o ac a dyfwyd yn y DU ac Iwerddon (UKISG) gan ddefnyddio hadau rhywogaethau coed brodorol sydd wedi'u casglu'n lleol.
- Defnyddio cynlluniau fferm i gynyddu'r galw am ffensys o goed Cymru sydd wedi'u hardystio fel rhai cynaliadwy.
- Datblygu deunyddiau a chynhyrchion coed eraill i ddisodli plastigau, yn arbennig llewys coed.
- Adfywio strategaeth Llywodraeth Cymru, "Coetiroedd i Gymru"[26] gyda chynllun cyflwyno a ariennir yn llawn i greu Cenedl o Goetiroedd gysylltiedig.







**Ar gyfartaledd, mae gan goetiroedd hynafol yng Nghymru gyfanswm stoc garbon o 105 tunnell yr hectar, o'u cymharu â chyfartaledd o 72 tunnell yr hectar i holl goetiroedd Cymru.[24]**



# Chwe Egwyddor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol

**Rydyn ni'n cefnogi'r consensws dros weithredu ar gyfer adferiad gwyrdd sy'n dod i'r fei ar draws llawer o sectorau ac a fynegir yn y Chwe Egwyddor ar gyfer yr Hinsawdd a Natur[27] ac yn y maniffestos a gyhoeddwyd gan Cyswllt Amgylchedd Cymru,[28] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol[29] a llawer un arall.**

## A wnewch chi ymuno â'n llais dros Adferiad Gwyrdd gyda Choed?

**Cysylltwch â ni HEDDIW – bydden ni wrth ein boddau egluro ein maniffesto'n fanylach a'r dystiolaeth sy'n ategu'r camau gweithredu a gynigir gynnon ni.**

**E-bostiwch wales@woodlandtrust.org.uk**

**Neu anfonwch neges uniongyrchol aton ni:**

**@CoedCadw**

**@CoedCadw**

**coedcadwcymru**












1 Coetir y credir ei fod yn bodoli'n barhaus ers canrifoedd yw coetir hynafol. Mae'r coetiroedd hynafol yma a'u priddoedd a'u bywyd gwyllt wedi cydesblygu am filoedd o flynyddoedd, gan greu ecosystemau amrywiol, arbennig a gwerthfawr na ellir eu hail-greu.

2 Mae Coed Cadw wedi cyhoeddi adroddiad tystiolaeth am Gyflwr Coedydd a Choed y DU - 2021. *(I'w gyhoeddi'n fuan).*

3 Un o'r camau sydd â'r flaenoriaeth uchaf yn Adroddiad CNC, "Adferiad Gwyrdd – Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu" yw ein cynnig, "Timau Trefi Coed i Gymru" https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/692666/final-green-recovery-priorities-for-action-re-port-cymraeg.pdf

4 Strategaeth Coed a Choetiroedd Wrecsam 2016–2026 http://old.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/env_services/trees/tree_and_woodland_strategy_w.pdf

5 Cyfoeth Naturiol Cymru. Gorchudd coed yng Nghymru. Ar gael ar: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/green-spaces/urban-trees/?lang=cy

6 Davies ac eraill (2017 ) *Challenges for tree officers to enhance the provision of regulating ecosystem services from urban forests.* Environmental Research Cyfrol 156, Gorffennaf 2017, Tudalennau 97-107. https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0013935117304942 Cyrchwyd 5 Mehefin 2020.

7 Mae adroddiadau i-Tree ar gael ar gyfer Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr, Cwm Tawe a Chaerdydd. https://www.forestresearch.gov.uk/research/i-tree-eco/i-tree-eco-projects-completed/

8 https://llyw.cymru/ymateb-manwl-i-adroddiad-comisiwn-y-gyfraith-ar-gyfraith-cynllu-nio-yng-nghymru

9 *Development Threats to Ancient Trees and Woods in Wales 2019.* Adroddiad Coed Cadw am achosion o goedydd hynafol oedd o dan fygythiad gan geisiadau cynllunio yng Nghymru yn 2019, gan adolygu'n arbennig effaith cynlluniau ffyrdd, llygredd amonia o unedau dofednod dwys a'r golled barhaus o orchudd coed trefol. Heb ei gyhoeddi. Ar gael gan Coed Cadw.

10 https://www.coedlleol.org.uk/green-health-and-access-west-wales-ghaww/

11 Nodyn briffio amaeth-goedwigaeth a llifogydd. Darparwyd y crynodeb hwn o dystiolaeth gynnon ni ynglŷn â sut y gall ymyriadau amaeth-goedwigaeth helpu i liniaru llifogydd a'i ddosbarthu i ASCau etholaethol ym mis Chwefror 2020. Ar gael gan Coed Cadw.

12 Cynnig Cynllun Gwrychoedd a Lleiniau. Cynnig Coed Cadw ar gyfer cynllun cefnogi ffermydd cynhwysol newydd, Gwrychoedd a Lleiniau. Mae'n crynhoi'r dystiolaeth o'r buddion o ran ffermio a bioamrywiaeth gan awgrymu sut gellir ei gyflwyno drwy gynlluniau fferm. Ar gael gan Coed Cadw.

13 http://nora.nerc.ac.uk/id/eprint/502914/1/N502914CR.pdf

14 https://cdn.naturalresources.wales/media/684348/chapter-3-state-and-trends-final-for-publica-tion.pdf

15 Ein cynigion ar gyfer Asesiadau Cynefinoedd Ffermydd a Ffermio yn y Dyfodol sy'n Ystyriol o Goed: Adroddiad CNC, "Adferiad Gwyrdd – Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu" https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/692666/final-green-recovery-priorities-for-action-report-cymraeg.pdf

16 https://www.woodlandtrust.org.uk/media/1687/ammonia-impacts-on-ancient-woodland.pdf

17 https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/national-forest-inventory/what-our-woodlands-and-tree-cover-outside-woodlands-are-like-today-8211-nfi-inventory-reports-and-woodland-map-reports/nfi-woodland-ecological-condition/

18 https://www.woodlandtrust.org.uk/publications/2018/07/current-state-of-ancient-woodland-res-toration/

19 https://www.youtube.com/channel/UCMRYNI0kQrQDjYU1gArV77g

20 https://www.woodlandtrust.org.uk/publications/2020/01/emergency-tree-plan/

21 https://www.theccc.org.uk/publication/the-path-to-net-zero-and-progress-reducing-emissions-in-wales/

22 Cynllun i Gynyddu'r Gorchudd Coed yng Nghymru. Argymhellion heb eu cyhoeddi. Ar gael gan Coed Cadw.

23 https://erammp.wales/cy/r-forest-evidence

24 Gellir priodoli canran uwch y carbon sy'n cael ei storio ym mhob hectar o goetir hynafol yn bennaf i'r ffaith fod coetiroedd o'r fath yn cynnwys mwy o goed hŷn a choed mwy o faint na choetiroedd eraill – gyda chanran uwch o rywogaethau coed llydanddail.

25 Woodknowledge Wales. Gwneud i'r Economi Sylfaenol ddigwydd – gyda gwaith coed. https://woodknowledge.wales/news/making-the-foundational-economy-happen-with-joinery

26 https://llyw.cymru/coetiroedd-i-gymru-strategaeth

27 https://www.sixprinciples.org/

28 https://www.waleslink.org/sites/default/files/wel_maniffesto_cym_-_final.pdf

29 https://www.futuregenerations.wales/cy/manifesto-for-the-future/

30 https://cyfoethnaturiol.cymru/media/679613/cym-urban-canopy-summary-2016.pdf



COED CADW
WOODLAND
TRUST

E-bost wales@woodlandtrust.org.uk

@CoedCadw @CoedCadw coedcadwcymru

Swyddfa Gofrestredig: Kempton Way, Grantham, NG31 6LL. Elusen gofrestredig yw Coed Cadw, rhif 294344 yng Nghymru a Lloegr a SC038885 yn yr Alban. Cwmni dielw cyfyngedig drwy warant. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 1982873. Mae logo Coed Cadw (The Woodland Trust) yn nod masnachu cofrestredig. 02/21